


# Celf Cynefin! Parchu'r ardal lle rydym ni'n byw

Gwelliant

## Bwriad Dysgu

- Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o ddeunyddiau a bywyd sydd ar lan y môr.
- Creu cerflun gan ddefnyddio artist amgylcheddol fel model.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Celf a Dylunio -** | Ymchwilio i'r amgylchedd naturiol. |
| **TGCh -** | Defnyddio TGCh i hyrwyddo'u dealltwriaeth o wybodaeth y maent wedi'i hadalw a'i chasglu. |
| **ADCDF -** | Yr amgylchedd naturiol. |

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Edrych ar waith Andy Goldsworthy, ymysg eraill.
- Trafod pa deimlad mae'r artist yn ceisio'i ysgogi.
- Trafod beth mae'r artist yn ceisio'i ddangos.
- Trafod pam mae'r artist wedi dewis y cyfrwng hwn.
- Annog y disgyblion i ddefnyddio pethau o'r amgylchedd i greu cerflun ysgogol.
- Cofio annog y disgyblion i fod yn ofalus wrth edrych yn y pyllau trai am ddeunyddiau - sicrhau eu bod yn parchu'r ardal lle rydym ni'n byw!

## Adnoddau

Lluniau print o weithiau gan Andy Goldsworthy (trwy chwilio am luniau ar Google, byddwch yn dod ar draws llawer o luniau!) - efallai hoffech eu lamineiddio i'w cadw'n sych a'u defnyddio eto!

Pethau y gallwch ddod o hyd iddynt ar y traeth!

(Cafodd y lluniau eu darparu gan ddosbarth ym Mlwyddyn 2 - efallai byddant yn rhoi rhai syniadau i chi!)

NPT Biodiversity
It's our nature
Ein natur ni
Bioamrywiaeth CNPT

# Creu celf amgylcheddol

**Amlinelliad o'r Wers**

- Trafod ystyr y cerfluniau.
- Trafod pam fod rhai artistiaid yn defnyddio cerflunio fel eu cyfrwng.
- Dangos rhai o'r lluniau rydych chi wedi'u casglu, ac annog y disgyblion i feddwl am beth maent yn ei gyfleu ac yn ei olygu!
- Annog y disgyblion i greu eu celf amgylcheddol eu hunain - gan gymryd gofal o'r hyn maent wedi dod o hyd iddynt.  Gall hwn hefyd fod yn ffordd dda o annog y disgyblion llai hyderus i gasglu adnoddau, ac edrych o dan gerrig ac mewn pyllau trai!
- Annog didoli, trafod a siapiau mathemategol, megis sbiralau y gall y disgyblion ddod o hyd iddynt ar anifeiliaid a chregyn ar lan y môr.
- Annog y disgyblion i dynnu ffotograffau diddorol o'u gwaith ar i'w harddangos a'u trafod yn y dosbarth.
- Os yw'r dosbarth wedi defnyddio pethau a allai fod yn rhan bwysig o'r cynefin, sicrhau eu bod yn eu rhoi yn ôl yn ofalus!

Pa gerflun rydych chi'n ei hoffi?  Pam?

Beth rydych chi wedi'i ddysgu drwy wneud y cerflun?

Pa batrymau y gallwch chi eu darganfod ar lan y môr?

Beth yw'r cynefinoedd gwahanol sydd i'w cael ar lan y môr?



